

Yn gwyno

Yn fras

Nod y cymhwyster hwn yw cyflwyno dysgwyr i bynciau newid yn yr hinsawdd, sero net, cynaliadwyedd a'r amgylchedd.

Bydd y wobr hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth sylfaenol o Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd. Gall fod yn fan cychwyn ar gyfer dilyniant gyrfa lle gall dysgwyr ddatblygu ymhellach i weithio mewn rolau proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r economi werdd.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gyrchu cyrsiau rhan-amser, am ddim a dysgu hyblyg a chyfleus sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... unrhyw un 19+ oed, sy'n byw yng Nghymru, sydd mewn cyflogaeth. Nid yw'r uchafswm cyflog arferol o £32,371 yn berthnasol ar gyfer y cwrs hwn.

... unrhyw un sy'n dymuno deall ymarferion ar gyfer gweithio'n gynaliadwy mewn rôl benodol, rôl yn y dyfodol a hyfforddiant parhaus.

Cynnwys y cwrs

Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr (beth bynnag eu sector astudio) i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r termau 'amgylchedd', 'cynaliadwyedd', 'newid yn yr hinsawdd' a 'sero net', am eu bod yn ymwneud â dyfodol gwyrdd.

Bydd dysgwyr yn archwilio:

diffiniadau, categorïau, cyfansoddion ac effeithiau dynol ac effeithiau nad ydynt yn rhai dynol ar yr amgylchedd

diffiniadau, pileri, actorion a thechnolegau gwyrdd sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd pynciau nwyon ty gwydr, ffynonellau, targedau a'u heffeithiau ar newid yn yr hinsawdd y cyd-destun carbon, ôl troed carbon, yn ogystal â pholisi cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer sero net



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn ond mae diddordeb brwd yn y pwnc yn hanfodol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

